

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun yr 4ydd o Dachwedd 2024 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones (Cadeirydd), Eirian Howells, Dyfed Davies, Alyson Harries, John Phillips, Derrick Harries, Ambrose Lewis, Ann Sillars, Arwyn Jones & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Linda Davies
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Andrew Jones i bawb am gyfarfod am 7.30 yn Ysgol Hafodwenog i gael taith o amgylch yr ysgol gan y pennaeth, Dr Carol James, a ddangosodd gwahanol agweddau o'r ysgol.
Estynodd Andrew Jones ei gydymdeimladau i Linda Davies yn ei absenoldeb ar golli ei mam. Roedd marwolaeth Lily Pantshoni yn golled enfawr i'r holl plwyf.
3. **Datgan Buddiannau:**
Byddai'r Cynghorydd Jean Lewis yn gadael y cyfarfod tra fod materion Cynllunio yn cael eu trafod.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 2ail o Fedi 2024 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5. Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Mi'r oedd perchnogion Lleine wedi danfon ebost parthed yr heol yn arwain i Rhoscrugebolion ac roedd wedi cael ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr. Cafodd y clerc ei awdurdodi i gysylltu gyda cyfreithiwr y Cyngor am gyngor.
- Roedd y coed o'r Ymddiriedolaeth Coedwigaeth wedi cael eu derbyn gan y clerc ac byddent yn cael eu plannu ar y cloddiau yn Rhoscrugebolion.

6. Gohebiaeth

~~a.~~ Roedd gwahoddiad gan Ysgol Hafodwenog i ymweld a'r ysgol wedi cymryd lle y noson honno am 7.30.

b. Roedd yr ebyst parthed heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i'r Cynghorwyr.

c. Roedd Archwilwyr Cymru wedi cwblhau yr archwiliad am 2023-2024 ac fe gafodd ei ddarllen. Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddu ar wefan y Cyngor a copi wedi ei roi ar hysbysfwrdd y pentref.

ch. Derbyniwyd dwy anfoneb wrh Archwilwyr Cymru am archwiliadau 2022-2023 a 2023-2024. Awdurdodwyd taliad y ddwy anfoneb am £769 a £200.

d. Roedd cwynion am gyflwr yr heol ger Tŷ Hên yn dilyn gwaith torri coed gan tiffeddiannwr preifat ac y tyllau niferus yn yr heol o Y Goetre i American House wedi cael eu adrodd i'r Cyngor Sir.

dd. Roedd adnewyddiad aelodaeth ICO wedi ei gwblhau yn awtomatig.

e. Cytunwyd i dalu'r anfoneb wrth yswiriant Zurich am £302.06

f. Ceisiaudau Cynllunio

a. PL/08340 – garej/gweithdy @ Erwsant, Penybont

b. PL/08385 – dymchwel adeilad cerrig allanol a codi estyniad dau lawr @ Waunlas, Trelech

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £557.33.

8. Unrhyw Fater Arall

- Adroddwyd pryderon i'r Cynghorydd Sir Jean Lewis am ddirywiad/tyllau ar cyffordd Velindre, o Llwynocrwn i Glaspant ac o Neuadd i Pandy.
- Nodwyd fod ardaloedd yn cael trafferthion gyda'i casgliadau sbwriel ac fe'u nodwyd gan y Cynghroydd Sir.
- Nodwyd llwyddiant diweddar C Ff I Penybont yn yr Eisteddfod Sir a Eisteddfod Cymru. Byddai'r clerc yn ysgrfennu atynt yn nodi balchder y Cyngor.
-

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.20yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 6ed o Ionawr 2025.